Thomas Cranfield *c.*1760–*c.*1838

Cyd-sylfaenydd ysgolion i blant carpiog yn Llundain

Er y bu twf mawr mewn addysg i blant ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda dyfodiad ysgolion gwirfoddol, roedd llawer o blant, yn enwedig mewn ardaloedd diwydiannol, yn gwbl ddi-ddysg. Rhaid cofio bod llawer o blant y cyfnod hwn yn gweithio am chwe diwrnod yr wythnos. Sefydlwyd y Gymdeithas Frutanaidd a Thramor gan yr Ymneilltuwyr ym 1810 a'r Gymdeithas Genedlaethol (*National Schools*) ym 1811.

Roedd rhai plant yn cael eu taflu allan o'u cartrefi gan eu rhieni i fyw yn yr awyr agored trwy werthu matsis, cardota neu ddwyn. Ar gyfer plant fel hyn y cychwynnwyd y Ragged Schools gan Gristnogion. Sefydlwyd y Ragged School Union ym 1844 o ganlyniad i waith John Pounds a Thomas Cranfield ac yn ddiweddarach newidiwyd yr enw i'r Shaftesbury Society.

Magwyd Cranfield yn Camberwell, Llundain, ac fe'i prentisiwyd fel teiliwr. Roedd braidd yn wyllt yn ei ieuenctid a bu ffrae deuluol a barodd iddo redeg i ffwrdd er mwyn ymuno â'r fyddin. Bu'n gwasanaethu yn Gibraltar ac, wedi iddo ddychwelyd adref, cymododd gyda'i dad oedd wedi bod yn gweddïo y byddai'n dychwelyd adref yn ddiogel. Er mwyn dangos ei werthfawrogiad aeth i'r eglwys gyda'i dad ac yno fe gafodd dröedigaeth.

Agorodd siop deiliwr yn Goswell Street a deuai criw o ffrindiau ato bob dydd i weddïo ac astudio'r Beibl. Ym 1791 symudodd i Kings Road yn yr East End. Gofidiai yn fawr am gyflwr y plant amddifad oedd yn rhy garpiog i fynychu'r eglwys ac felly agorodd Ysgol Sul yn ei gartref. Tyfodd hon yn gyflym a phan gyrhaeddodd y nifer 60 bu'n rhaid iddo chwilio am leoliad arall. Rhoddodd y gwaith yn nwylo ffrindiau a sefydlodd Ysgol Sul arall yn Stoke Newington. Digwyddodd hyn droeon ac yn y diwedd sefydlodd 19 o Ysgolion Sul yng ngogledd Llundain.

Trodd ei olygon wedyn i'r de o afon Tafwys i ardal Southwark, lle roedd slymiau gwaethaf y ddinas. Roedd cyflwr y teuluoedd a'r plant yma yn enbydus. Dywedid gan rai bod y plant yn yr ardal hon yn anaddas i fynychu Ysgol Sul. Wrth weld cyflwr rhai o'r plant ni chredai eu bod erioed wedi ymolchi. Ysgrifennodd am yr ardal gan ddweud, 'Yr oedd dynion, merched, plant, mulod, moch a chŵn yn byw yn yr un ystafell. Roedd y plant mewn cyflwr erchyll, wedi eu hanner gwisgo mewn carpiau, ac mor fudr a blêr fel nad oedd unrhyw arwydd eu bod wedi ymolchi na chribo eu gwallt ers eu genedigaeth.' Agorodd ysgol wirfoddol ar gyfer y bechgyn a'r merched er mwyn rhoi addysg sylfaenol iddynt. Er mwyn eu hannog i fynychu'n gyson cynigiai roddion iddynt sef cap i'r bechgyn a bonet i'r merched. Sefydlodd geginau cawl yno er mwyn dosbarthu bwyd, bara, reis a glo i deuluoedd anghenus. Yn ddiarwybod iddo'i hun yr oedd Cranfield wedi sefydlu mudiad pwysig a wnaeth les aruthrol i gyflwr y tlodion yn Llundain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.